

Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2023

Hysbysiad a gyfarfod**Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg****Dydd Mercher, 21ain Mehefin, 2023 at 10.00 am,
Neuadd y Sir, Siambr y Cyngor, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**

Nodwch y cynhelir rhag gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer aelodau'r
pwyllgor

AGENDA

Item No	Item	Pages
1.	Ethol Cadeirydd	
2.	Penodi Is-gadeirydd	
3.	Datganiadau o Fuddiant	
4.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd	
	Canllawiau ~ Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Dethol	
	<p>Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Dethol yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen gyfarfod gwefan Cyngor Sir Fynwy</p> <p>Os hoffech rannu eich barn ar unrhyw gynigion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Dethol, gallwch gyflwyno eich sylwadau drwy ddefnyddio'r ffurflen hon</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhannwch eich barn drwy lanlwytho ffeil fideo neu sain (uchafswm o 4 munud); neu• Cyflwynwch sylwadau ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair) <p>Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif Fy Sir Fynwy er mwyn cyflwyno'r ymateb neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi os</p>	

ydych wedi cofrestru o'r blaen.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Os bydd y sylwadau a dderbynnir yn fwy na 30 munud, bydd detholiad o'r rhain, yn seiliedig ar thema, yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i gynghorwyr cyn y cyfarfod.

Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd, bydd angen i chi roi tri diwrnod o hysbysiad i ni drwy gysylltu â Scrutiny@monmouthshire.gov.uk. Y cadeirydd sy'n penderfynu faint o amser a roddir i bob aelod o'r cyhoedd i siarad, ond i'n galluogi i roi cyfle i nifer o siaradwyr, gofynnwn nad yw cyfraniadau yn hirach na 3 munud.

Os hoffech awgrymu pynciau i un o'n Pwyllgorau Dethol graffu arnynt yn y dyfodol, gwnewch hynny drwy e-bostio Scrutiny@monmouthshire.gov.uk

5.	Diogelu'r Cyhoedd Adroddiad ar Berfformiad 2022-23	1 - 28
	Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth yma.	
6.	Monitro cyllideb 2022/23 - Adroddiad Alldro	29 - 44
	Craffu ar adroddiadau Alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2022-23	
7.	Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	45 - 66
	Rhoi cyfle i'r pwyllgor archwilio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn yr ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.	
8.	Rhaglen Waith a Rhestr Camau Gweithredu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg	67 - 72
9.	Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor	73 - 82
10.	Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain o Chwefror 2023	83 - 90
11.	Cyfarfod nesaf: 17eg o Orffennaf 2023	

Paul Matthews

Prif Weithredwr

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL A GANLYN:

County Councillor Jill Bond, West End;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Alistair Neill, Gobion Fawr;, Welsh Conservative Party
County Councillor Paul Pavia, Mount Pleasant;, Welsh Conservative Party
County Councillor Peter Strong, Rogiet;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Ann Webb, St Arvans;, Welsh Conservative Party
County Councillor Laura Wright, Grofield;, Welsh Labour/Llafur Cymru
Janice Watkins
County Councillor Rachel Buckler, Devauden;, Welsh Conservative Party
County Councillor Catherine Fookes, Town;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Tudor Thomas, Park;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Meirion Howells, Llanbadoc & Usk;, Independent

Gwybodaeth I'r Cyhoedd

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni

Neb yn cael ei adael ar ôl

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

Ein sir yn ffynnu

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

Ein blaenoriaethau

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.

- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.
- **Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Canllaw Cwestiynau Craffu Sir Fynwy

1. Pam mae'r Pwyllgor yn craffu ar hyn? (cefndir, materion allweddol)
2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniad mae'r Aelodau am ei gyflawni?
3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os nad oes, pwy allai ddarparu hyn?
 - Cytuno ar y drefn holi a pha Aelodau fydd yn arwain
 - Cytuno ar gwestiynau i swyddogion a chwestiynau i Aelod y Cabinet

Cwestiynau'r Cyfarfod

Craffu ar Berfformiad

1. Sut mae perfformiad yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?
2. Sut mae perfformiad yn cymharu â chynghorau eraill/darparwyr gwasanaethau eraill? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?
3. Sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau gosodedig? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?
4. Sut cafodd targedau perfformiad eu gosod? Ydyn nhw'n ddigon heriol/realistig?
5. Sut mae defnyddwyr gwasanaethau/y cyhoedd/partneriaid yn gweld perfformiad y gwasanaeth?
6. A fu unrhyw awdid ac archwiliadau diweddar? Beth oedd y canfyddiadau?
7. Sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at wireddu amcanion corfforaethol?
8. A yw gwelliant/dirywiad mewn perfformiad yn gysylltiedig i gynnydd/ostyngiad mewn adnodd?
Pa gapasiti sydd yna i wella?

Craffu ar Bolisi

1. Ar bwy mae'r polisi yn effeithio ~ yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? Pwy fydd yn elwa fwyaf/leiaf?
2. Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth /rhanddeiliaid? Pa ymgynghoriad gafodd ei gyflawni? A wnaeth y broses ymgynghori gydymffurfio ag Egwyddorion Gunning? A yw rhanddeiliaid yn credu y bydd yn sicrhau'r canlyniad a ddymunir?
3. Beth yw barn y gymuned gyfan – safbwynt y 'trethdalwr'?
4. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â'r rhanddeiliaid? A oedd y broses yn galluogi pawb â chyfran i ddweud eu dweud?
5. Pa ymarfer ac opsiynau sydd wedi eu hystyried wrth ddatblygu/adolygu'r polisi hwn? Pa dystiolaeth sydd i hysbysu beth sy'n gweithio? A yw'r polisi yn ymwneud â maes lle mae diffyg ymchwil cyhoeddedig neu dystiolaeth arall?
6. A yw'r polisi'n ymwneud â maes lle ceir anghydraddoldebau hysbys?
7. A yw'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, fel y'u diffinnir yn ein cynllun corfforaethol? A yw'n cadw at ein Safonau Iaith Gymraeg?
8. A gafodd yr holl ddatblygu cynaliadwy, y goblygiadau cydraddoldeb a diogelu perthnasol eu hystyried?

	<p>Er enghraifft, beth yw'r gweithdrefnau sydd angen bod ar waith i amddiffyn plant?</p> <p>9. Faint fydd y gost hon i'w gweithredu a pha ffynhonnell ariannu sydd wedi'i nodi?</p> <p>10. Sut fydd perfformiad y polisi yn cael ei weithredu a'r effaith yn cael ei gwerthuso?</p>
--	---

Cwestiynau Cyffredinol:

Grymuso Cymunedau

- Sut ydym ni'n cynnwys cymunedau lleol a'u grymuso i ddylunio a darparu gwasanaethau i gyd-fynd ag angen lleol?
- A ydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd gyda chymunedau am flaenoriaethau'r gwasanaeth a pha lefel o wasanaeth y gall y cyngor fforddio ei ddarparu yn y dyfodol?
- A yw'r gwasanaeth yn gweithio gyda dinasyddion i egluro rôl gwahanol bartneriaid wrth ddarparu gwasanaeth a rheoli disgwyliadau?
- A oes fframwaith a phroses gymesur ar waith ar gyfer asesu perfformiad ar y cyd, gan gynnwys o safbwynt dinesydd, ac a oes gennych chi drefniadau atebolrwydd i gefnogi hyn?
- A oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnal? Os felly a all yr Arweinydd a'r Cabinet /Uwch Swyddogion roi copïau i'r Aelodau ac eglurhad manwl o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynigion hyn?
- A all yr Arweinydd a'r Cabinet/Uwch Swyddogion sicrhau aelodau bod y cynigion hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol? A yw'r cynigion yn cydymffurfio â Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod Lleol?

Galwadau'r Gwasanaeth

- Sut fydd newid polisi a deddfwriaeth yn effeithio ar y ffordd mae'r cyngor yn gweithredu?
- A ydym ni wedi ystyried demograffeg ein cyngor a sut bydd hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau a chyllid yn y dyfodol?
- A ydych chi wedi adnabod ac ystyried y tueddiadau tymor hir a allai effeithio ar eich maes gwasanaeth, pa effaith allai'r tueddiadau hyn ei chael ar eich gwasanaeth/allai eich gwasanaeth ei gael ar y tueddiadau hyn, a beth sy'n cael ei wneud mewn ymateb?

Cynllunio Ariannol

- A oes gennym ni gynlluniau ariannol canolig a hirdymor cadarn yn eu lle?
- A ydym ni'n cysylltu cyllidebau â chynlluniau a chanlyniadau ac adrodd yn effeithiol ar y rhain?

Gwneud arbedion a chynhyrchu incwm

- A oes gennym ni'r strwythurau cywir ar waith i sicrhau bod ein dulliau effeithlonrwydd, gwelliant a thrawsnewid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r arbedion mwyaf posibl?
- Sut ydym ni'n gwneud y mwyaf o incwm? A ydym ni wedi cymharu polisïau eraill y cyngor

i sicrhau'r incwm mwyaf posibl ac wedi ystyried yn llawn y goblygiadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth?

- A oes gennym ni gynllun gweithlu sy'n ystyried capasiti, costau, a sgiliau'r gweithlu gwirioneddol yn erbyn y gweithlu a ddymunir?

Cwestiynau i'w gofyn o fewn blwyddyn i'r penderfyniad:

- A gafodd canlyniadau arfaethedig y cynnig eu cyflawni neu a oedd canlyniadau eraill?
- A oedd yr effeithiau wedi'u cyfyngu i'r grŵp yr oeddech chi ar y dechrau yn meddwl fyddai wedi cael ei effeithio h.y. pobl hŷn, neu a gafodd eraill eu heffeithio e.e. pobl ag anableddau, rhieni â phlant ifanc?
- A yw'r penderfyniad yn dal i fod y penderfyniad cywir neu a oes angen gwneud addasiadau?

Cwestiynau i'r Pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod ...

A oes gennym ni'r wybodaeth angenrheidiol i ffurfio casgliadau/i wneud argymhellion i'r pwyllgor gwaith, cyngor, partneriaid eraill? Os nad oes, a oes angen i ni:

- (i) Ymchwilio i'r mater yn fwy manwl?
- (ii) Gael rhagor o wybodaeth gan dystion eraill - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, arbenigwr annibynnol, aelodau o'r gymuned, defnyddwyr gwasanaeth, cyrff rheoleiddio...

Cytuno ar gamau pellach sydd i'w cymryd o fewn amserlen/adroddiad monitro yn y dyfodol.

